



10 DOWNING STREET
LONDON SW1A 2AA

PRIF WEINIDOG Y DEYRNAS UNEDIG

Ysgrifennaf atoch i roi'r diweddaraf i chi am ein camau i ymladd y coronafeirws.

Mewn ychydig wythnosau yn unig, trawsnewidiwyd bywyd bob dydd ein gwlad yn llwyr. Mae'r coronafeirws wedi cael effaith fawr ar bob un ohonom, ar ein teuluoedd a'n ceraint, ac ar ein cymunedau.

Rwy'n deall yn iawn yr anawsterau mae hyn wedi ei achosi yn eich bywydau, eich busnesau a'ch swyddi chi. Ond roedd yn gwbl angenrheidiol inni gymryd y camau hyn, a hynny am un rheswm syml.

Os bydd gormod o bobl yn mynd yn ddifrifol wael ar yr un pryd, fydd ein Gwasanaeth Iechyd ddim yn gallu ymdopi. A bydd hynny'n costio bywydau. Rhaid inni arafu lledaeniad yr haint a lleihau nifer y bobl sydd angen triniaeth yn yr ysbyty, er mwyn achub cynifer o fywydau â phosibl.

Dyna pam rydym yn rhoi un cyfarwyddyd syml i chi - rhaid i chi aros gartref.

Peidiwch â chwrdd â ffrindiau neu berthnasau nad ydynt yn byw yn eich cartref. Chewch chi ddim gadael eich cartref heblaw am rai rhesymau cyfyngedig iawn, fel i brynu bwyd a moddion, ymarfer corff unwaith y dydd a cheisio cymorth meddygol. Gallwch deithio i'r gwaith ac yn ôl, ond dylech weithio gartref os gallwch.

Ac os oes rhaid ichi adael y tŷ, dylech sicrhau, pryd bynnag y bo modd, eich bod yn cadw dau fetr ar wahân i bawb arall heblaw pobl sy'n byw gyda chi. Rhaid dilyn y rheolau hyn. Os bydd pobl yn torri'r rheolau, bydd yr heddlu'n rhoi dirwyon ac yn gwasgaru grwpiau sy'n ymgynnull.

Rwy'n gwybod y bydd llawer ohonoch yn bryderus dros ben am effaith ariannol hyn oll arnoch chi a'ch teulu. Bydd y Llywodraeth yn gwneud popeth yn ei gallu i'ch helpu i gael dau pen llinyn ynghyd a rhoi bwyd ar y bwrdd.

Mae'r daflen a amgaeir yn rhoi mwy o fanylion am y cymorth sydd ar gael a'r rheolau i chi eu dilyn. Mae'r cyngor diweddaraf ar gov.uk/coronavirus hefyd.

O'r dechrau, rydym wedi ceisio cyflwyno'r mesurau cywir ar yr adegau cywir. Ac yn bendant, fe awn ni ymhellach eto os yw'r cyngor gwyddonol a meddygol yn dweud taw dyna sydd raid.

Mae'n bwysig imi fod yn onest gyda chi – rydym yn gwybod y bydd pethau'n mynd yn waeth cyn mynd yn well. Ond rydym yn gwneud y paratodau cywir ac os bydd pawb yn cadw at y rheolau'n dda, bydd llai o fywydau'n cael eu colli a bydd bywyd arferol yn gallu ailddechrau yn gynt.

Rwyf am ddiolch i bawb sy'n gweithio'n ddi-flino i guro'r feirws, yn enwedig staff ein Gwasanaeth Iechyd ardderchog a gweithwyr gofal ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr awr hon o argyfwng, mae'n ysbrydoliaeth gweld ymroddiad rhagorol ein meddygon, nyrsys a gofalwyr eraill.

Mae miloedd o feddygon a nyrsys oedd wedi ymddeol yn dychwelyd i'r Gwasanaeth Iechyd – a channoedd o filoedd o ddinasyddion yn gwirfoddoli i helpu'r rhai mwyaf bregus yn ein plith. Dyna yw'r ysbryd Prydeinig sy'n mynd i drechu'r coronafeirws ac fe'i drechwn gyda'n gilydd.

Dyna pam, yn yr awr hon o argyfwng cenedlaethol, rwy'n erfyn arnoch i aros gartref, diogelu'r Gwasanaeth Iechyd ac achub bywydau.

